BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS WRECSAM Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2020

Siambr y Cyngor, Neuadd y Dref

Aelodau'r Bwrdd

Lyndsey Rawlinson	Cyfoeth Naturiol Cymru (Cadeirydd)
Sue Price	Coleg Cambria
Ian Bancroft	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Nina Ruddle	Prifysgol Glyndŵr
Mark Pierce	Heddlu Gogledd Cymru
Andrew Gralton	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Gwahoddedigion

Alexander Pengelly	Senedd yr Ifanc
Emma Walker	Senedd yr Ifanc
Cameron Millington	Senedd yr Ifanc
Toby Jones	Senedd yr Ifanc
Morgan Peters	Senedd yr Ifanc
Anna-Louise Edwards	Cyngor Gofal Pobl Ifanc Wrecsam
Jane Jones	CBSW
Trisha Jones	CBSW
Caroline Bennett	CBSW
Sally Holland	Comisiynydd Plant Cymru
Andrew Atkinson	CBSW - Aelod Arweiniol Gwasanaethau Plant

Cefnogaeth y Rhaglen

Michael Cantwell	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Ymddiheuriadau

Rebecca Masters	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Sioned Rees	Llywodraeth Cymru
Rob Smith	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Simon Dean	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Simon Smith	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Ian Roberts	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

1	**Croeso**	
	Croesawodd LR bawb i'r cyfarfod. Bu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam yn gweithio â Chomisiynydd Plant Cymru a Senedd Wrecsam i drafod yr hyn y gellid ei wneud i fabwysiadu dull oedd yn seiliedig ar hawliau plant yng ngwaith y Bwrdd a'r sefydliadau oedd yn rhan ohono. Nodwyd y derbyniwyd nifer o ymddiheuriadau gan bartneriaid allweddol wrth i'r pandemig ddod i'r amlwg fel mater iechyd cyhoeddus a chymunedol.	
2	**Strategol**	
	Wedi'r cyflwyniad gan Sally Holland y llynedd a'r gweithdy ar y Ffordd Iawn, bu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam yn arbrofi â'r dull hwn ar lefel strategol a sefydliadol. Roedd y cyfarfod eleni'n gyfle i drafod sut hwyl a gafwyd ar hyn. Mynegodd SH egwyddorion y Ffordd Iawn unwaith eto, gan sôn hefyd am y fideo'r oedd ei swyddfa wedi'i gynhyrchu ar ôl cyfarfod y llynedd. https://www.youtube.com/watch?v=xE_CkBYh6Vk BGC Wrecsam Cymraeg https://www.youtube.com/watch?v=iq3mZY1iDSY BGC Wrecsam Saesneg	
	Yn dilyn y cyfarfod ar y cyd y llynedd, ymrwymodd y Bwrdd i ganolbwyntio ar sut y gallai ddefnyddio'r ffyrdd o weithio er mwyn ymgorffori hawliau plant yn yr holl fyrddau rhaglen a'r sefydliadau oedd yn rhan ohonynt.	

1	**Croeso**	
	➢ **Hirdymor -** sut y gall y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ddatblygu gwaith rhwng cenedlaethau? ➢ **Atal -** beth fydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei wneud i ddatblygu ymagwedd sy'n seiliedig ar hawliau plant? ➢ **Cydweithio** - sut y gall partneriaid ddatblygu gwaith ar y cyd? ➢ **Cynnwys** - sut y gall y BGC gydweithio â phlant a phobl ifanc i lunio cyflawniad y cynllun lles? ➢ **Integreiddio** - beth fydd partneriaid yn ei wneud i ymgorffori hawliau plant?	
	Aeth SH ymlaen i sôn am y cynnydd cychwynnol mewn rhai sefydliadau, gan gynnwys Ysbyty Glan Clwyd lle'r oedd pobl ifanc wedi cyfrannu at gynllunio eu triniaeth a'r ysbyty wedi bod yn rhagweithiol yn ceisio barn y cleifion ifanc, fel y gellid gwella'r cyfleusterau'n sydyn lle'r oedd angen. Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi ymrwymo i gynnwys pobl ifanc ar ei Fwrdd. https://www.youtube.com/watch?v=JT0_ZzMgcAk&feature=youtu.be https://www.youtube.com/watch?v=aJT6A3MzBw8	
	Cafwyd trafodaeth fuddiol ynglŷn â'r cynnydd a wnaed a'r hyn oedd angen ei wneud eto. Gallai'r Senedd a Phobl Ifanc wneud cyfraniad buddiol dros ben wrth ddal sefydliadau'r Bwrdd i gyfrif. Nid oedd yr ymrwymiad a wnaed y llynedd i gael unigolyn ifanc ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi'i gyflawni eto. Roedd plant a phobl ifanc yn ymwneud yn helaeth â'r byd cyhoeddus yn Wrecsam – roedd angen i hynny barhau er mwyn sicrhau fod cynrychiolaeth yn amrywiol ac agored. Roedd sefydliadau'n datblygu arferion gorau ond nid oedd hynny'n dod i sylw'r Bwrdd. Roedd angen gwneud mwy i gasglu gwybodaeth am yr hyn oedd yn digwydd o fewn y sefydliadau a'i rhannu, fel y gellid arfarnu'r sefyllfa.	

1	**Croeso**	
	Roedd LR a MC wedi cwrdd â'r Senedd ym mis Medi 2019 i drafod newid hinsawdd. • A ellid mynd ymhellach fel bod y Cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd yn mynd i gyfarfodydd y Senedd a'r Cyngor Gofal yn amlach er mwyn hwyluso perthynas barhaus? Roedd teimlad y gallai sefydliadau'r Bwrdd fod wedi canolbwyntio ar hawliau plant heb wneud dim mewn gwirionedd i hybu ymgysylltiad pobl ifanc. Sut allai'r Bwrdd fynd ati'n awr i newid ei weithdrefnau a threfn ei gyfarfodydd? Ym mha ffordd allai'r Bwrdd gasglu gwybodaeth am y cynnydd yn hyn o beth, fel y gellid dadansoddi ac arfarnu'r sefyllfa? Roedd sefydliadau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam yn cyfranogi'n helaeth – ond a wyddai neb ble a sut roedd hynny wedi arwain at ganlyniadau gwahanol? O ran hawliau plant nid oedd yr un Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cael popeth yn iawn – ond roedd Wrecsam yn gwneud cynnydd gwerth chweil. Yn genedlaethol roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi canolbwyntio ar gyfranogiad ers tro, gan ddod i'r casgliad y dylai fod llysgenhadon ifanc ar ei Fwrdd. Wrth geisio gwneud gwahaniaeth, byddai'n well pe gellid penodi unigolyn ifanc i un o'r byrddau rhaglen, neu hyd yn oed y timau prosiect oddi tanynt. Er enghraifft, roedd y bwrdd dysgu gydol oes yn gweithio ar brifysgol i blant, ac felly byddai'n hanfodol cael safbwynt unigolyn ifanc ar y prosiect. Y cam nesaf i'r Bwrdd fel corff strategol fyddai bod yn fentrus a thrafod sut ellid ail-lunio'r bartneriaeth gyda'r nod o gynnwys plant a phobl ifanc.	
4	**Unrhyw Fater Arall**	
	Dim	MC

1	**Croeso**			
5	**Dyddiadau Cyfarfodydd 2020:**			
	23.04.20 11.06.20 Ambiwlans Wrecsam	10am tan 11am 10am tan 12pm	Ffôn-gynhadledd Canolfan Adnoddau Gwasanaeth Tân ac	

Anfonwch neges e-bost i sustainability@wrexham.gov.uk os hoffech chi ragor o wybodaeth am y cofnodion hyn.